Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

**TURNITIN – Y GWASANAETH CANFOD LLÊN-LADRAD**

Fel myfyriwr mae'n bosibl eich bod yn ymwybodol o'r pryder cynyddol ym maes Addysg Uwch am lên-ladrad – sef cyflwyno gwaith academaidd pobl eraill fel eich gwaith chi'ch hun. Mae pryder arbennig am rôl y rhyngrwyd yn hyn o beth. O ganlyniad mae'r asiantaethau Addysg Uwch ym Mhrydain wedi cychwyn Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad JISC**.** Mae hwn ar gael bellach i bob sefydliad Addysg Uwch ym Mhrydain, gan alluogi tiwtoriaid, os dymunant hynny, i archwilio gwaith a amheuir o lên-ladrad yn erbyn cronfa ddata o 800 miliwn o wefannau a deunyddiau perthynol.

**Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn defnyddio'r gwasanaeth hwn ac, wrth i chi gofrestru i astudio cwrs neu raglen a gynigir gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, mae'n *ofynnol* eich bod yn llofnodi'r datganiad ar eich ffurflen gofrestru yn awdurdodi i'ch gwaith gael ei archwilio yn erbyn cronfa ddata'r Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad fel yr amlinellir yn 'Llên-ladrad - Hysbysiad Casglu i Fyfyrwyr' isod.**

**Mae'n bolisi ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant nad yw'n bosibl i chi ddilyn cwrs neu raglen oni bai fod y datganiad hwn wedi'i lofnodi.**

Ni fwriedir i ddefnydd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant o'r gwasanaeth hwn awgrymu mewn unrhyw ffordd y byddwch chi, neu fyfyrwyr eraill y Brifysgol, yn llên-ladrata. Mae mwyafrif helaeth y myfyrwyr yn cwblhau eu gwaith yn onest ac yn ddiwyd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Brifysgol sicrhau nad yw ymdrechion onest mwyafrif y myfyrwyr yn cael eu peryglu gan y lleiafrif bychan o fyfyrwyr sy'n ymgymryd â gwaith anonest. Bwriad y Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad felly yw eich diogelu chi a diogelu gonestrwydd eich gwaith.

## LLÊN-LADRAD - Hysbysiad Casglu i Fyfyrwyr

### Beth yw'r Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad?

Gwasanaeth a gymeradwyir gan JISC yw'r Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad ("y gwasanaeth"). Mae'n chwilio'r we fyd-eang a chronfeydd data helaeth o ddeunydd cyfeiriol a chynnwys a gyflwynwyd gan fyfyrwyr eraill, i weld a oes unrhyw ddyblygu yn eich gwaith. iParadigms, ar y cyd â Northumbria Learning, sy'n gweithredu'r gwasanaeth. **Nid** yw'r meddalwedd yn penderfynu a yw myfyriwr wedi cyflawni llên-ladrad, yn hytrach mae'n amlygu darnau o destun sydd wedi'u canfod mewn ffynonellau eraill. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd y testun wedi'i gyfeirnodi'n gywir. Bydd y tiwtor modwl yn parhau i adolygu pob darn o waith.

### Beth yw'r manteision o fod yn rhan o'r Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad?

Mae llên-ladrad yn drosedd ddifrifol ac yn rhywbeth mae eich sefydliad chi yn dymuno mynd i'r afael ag ef a'i atal. Bydd defnyddio'r system hon yn caniatáu i'r Brifysgol, a sefydliadau eraill ledled y wlad, chwilio'n systematig am lên-ladrad, gan sicrhau felly fod gwaith pob myfyriwr yn wreiddiol ac yn derbyn marc sy'n unol â hynny. Trwy hyn gallwn leihau'r perygl fod myfyrwyr eraill yn derbyn marciau annheg am waith nad yw'n wreiddiol.

**Sut y bydd fy nata i'n cael eu defnyddio?**

Er mwyn i'r gwasanaeth hwn weithio bydd angen i chi gyflwyno eich aseiniadau i'r gwasanaeth lle cânt eu storio ynghyd â'ch enw, cyfeiriad e-bost, manylion cwrs a sefydliad. Unwaith y bydd eich deunydd wedi'i lwytho i fyny bydd yn cael ei storio'n electronig mewn cronfa ddata a'i gymharu â gwaith a gyflwynwyd o'r adran hon, neu unrhyw adran arall / adrannau eraill yn y sefydliad hwn, neu sefydliadau eraill yn y Deyrnas Unedig sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Os bydd y gwasanaeth yn canfod cryn debygrwydd rhwng cynnwys o fewn y gwasanaeth, yna caiff hyn ei adrodd yn ôl i'r Brifysgol a *gallwn* benderfynu ymchwilio ymhellach. Gallai hyn arwain yn y pen draw at gamau disgyblu, pe bai achosion o lên-ladrad yn cael eu canfod. Mae penderfyniadau o'r fath yn fater i'r Brifysgol yn llwyr ac nid ydynt yn cynnwys y Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad mewn unrhyw ffordd. Mewn sefyllfa o'r fath mae'n bosibl y bydd angen datgelu eich data personol i staff academaidd y sefydliad arall / sefydliadau eraill lle mae cynnwys tebyg wedi'i gyflwyno. Trwy lofnodi'r cytundeb hwn rydych yn rhoi eich caniatâd i'ch data gael eu trosglwyddo a'u defnyddio fel hyn.

Y Brifysgol yw'r Rheolwr Data cydnabyddedig, (sef y sawl sy'n rheoli hyd a lled y data a'r defnydd ohonynt), ar gyfer y data a gedwir neu a brosesir gan neu ar ran y gwasanaeth. iParadigms yw'r Prosesydd Data. Er mwyn i'r Brifysgol wneud defnydd o'r gwasanaeth bydd yn rhaid i ddata personol amdanoch chi gael eu trosglwyddo i wledydd nad ydynt dan reolaeth deddfwriaeth Diogelu Data'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, dylid nodi bod iParadigms, y cwmni sy'n prosesu eich data ar ran y Brifysgol, yn rhwym yn ôl amodau ei gytundeb i gydymffurfio bob amser â'r egwyddorion Diogelu Data.

**Am faint bydd y gwasanaeth yn cadw fy nata?**

Bydd y gwasanaeth yn ceisio cadw cynnwys a gyflwynir iddo a data personol cysylltiol tan i'r gwasanaeth hwn neu ei olynydd ddod i ben. Trwy hynny bydd yn helpu i gasglu corff mor fawr â phosibl o wybodaeth y gellir cymharu cynnwys a gyflwynir ag ef.

**Beth os byddaf i eisiau i'm data gael eu dileu o'r gwasanaeth cyn hynny?**

Os byddwch ar unrhyw adeg eisiau dileu eich data o'r gwasanaeth dylech gysylltu â gweinyddwr TurnitinUK yn y Brifysgol a fydd yn gallu gwneud y trefniadau angenrheidiol gyda Northumbria Learning. Wedi i hyn gael ei gwblhau byddwch yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig.

**Beth os hoffwn i gael gwybod pa ddata personol mae'r gwasanaeth yn eu cadw amdanaf i?**

Os hoffech gael gwybod yn union pa ddata personol mae'r gwasanaeth yn eu cadw amdanoch, yna cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol (drwy e-bost: dpa@ydds.ac.uk). Bydd angen i chi brofi pwy ydych cyn y datgelir unrhyw wybodaeth bersonol i chi. Bydd y broses yn golygu bod y Swyddog Diogelu Data yn cysylltu â Northumbria Learning ac iParadigms ar eich rhan.
Mae'n bosibl bod y Brifysgol hefyd yn cadw data personol amdanoch yng nghyswllt llên-ladrad, data y mae wedi'u derbyn gan y gwasanaeth neu rywle arall. I gael gwybodaeth ynghylch cael mynediad i ddata o'r fath cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol.

**Pwy sydd berchen hawlfraint y gwaith yr ydw i wedi'i gyflwyno i'r gwasanaeth?**

Nid oes gan y gwasanaeth unrhyw ddiddordeb mewn caffael yr hawliau eiddo deallusol ar gyfer y cynnwys a gyflwynwyd gennych. Bydd hawlfraint y cynnwys yn parhau yn eich meddiant chi neu'r sefydliad, yn unol â'r sefyllfa bresennol. Gweler yr adran isod: *Amodau a Thelerau'r Sefydliad* am ragor o fanylion ar sut mae hyn yn cael ei reoli o fewn eich sefydliad chi.

Fodd bynnag, bydd rhaid i'r gwasanaeth gael caniatâd deiliad yr hawliau i gadw copi electronig o'ch cynnwys ar gronfa ddata ac i ddefnyddio'r deunydd hwn i'r dibenion a amlinellwyd uchod.

Noder na fydd Northumbria Learning, y gwasanaeth na'i brosesyddion data yn ceisio gwneud defnydd o'r cynnwys a gyflwynir i'r gwasanaeth hwn ar gyfer unrhyw elw masnachol y tu allan i gylch gorchwyl y gwasanaeth.

**Amodau a Thelerau'r Sefydliad**

Ceir manylion llawn am reoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol yn ymwneud â llên-ladrad yn y *Llawlyfr Ansawdd Academaidd* ac yn *Rheoliadau'r Brifysgol – Canllaw i Fyfyrwyr*. Ceir manylion am reoliadau'r Brifysgol yn ymwneud â Hawliau Eiddo Deallusol yn y *Llawlyfr Ansawdd Academaidd*.

## Cytundeb

Trwy lofnodi'r cytundeb llên-ladrad rydych yn rhoi eich caniatâd i'ch data personol gael eu defnyddio gan y gwasanaeth i'r dibenion a amlinellir uchod ac yn unol â'r prosesau a amlinellir uchod.

**Rheoliadau i Fyfyrwyr ar Hawliau Eiddo Deallusol**

Drwy lofnodi'r cytundeb hwn rydych hefyd yn dangos eich bod yn derbyn rheoliadau'r Brifysgol a osodir yn y *Llawlyfr Ansawdd Academaidd* sy'n delio â mater Hawliau Eiddo Deallusol, sef perchnogaeth unrhyw hawlfraint, hawliau dylunio, dyfais, darganfyddiad neu welliant a gynhyrchir gan fyfyriwr neu fyfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau. Eu nod yw diogelu buddiannau'r myfyriwr a'r Brifysgol a dylid eu dehongli fel ymgais i weithredu'n rhesymol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd y Brifysgol am gadw'r Hawliau Eiddo Deallusol ac fe fydd yn rhoi'r hawliau hyn yn ôl i'r myfyriwr dan sylw. Yn ogystal, bydd y Brifysgol yn aml yn cytuno y gall y myfyriwr gyhoeddi, ac yn gyffredinol bydd pob Pennaeth Ysgol yn rhoi'r caniatâd angenrheidiol fel mater o drefn. Yn naturiol, os bydd y Brifysgol yn penderfynu cadw a defnyddio rhai Hawliau Eiddo Deallusol, wedyn bydd y myfyrwyr dan sylw â'r hawl i ran o unrhyw elw a wneir. Cytunwyd ar y rheoliadau hyn gyda chynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr.